# Clecs Casnewydd

Rhifyn 1
Tymor yr Hydref
2012

# Mae Nadolig yn yr awel!

Mae'r ysgol gyfan wedi ymgolli yn nathliadau'r Wŷl wrth baratoi sioeau Nadolig.

Roedd y 'Pantolig' yn llwyddiant mawr gyda pherfformiadau arbennig a doniol gan Flynyddoedd 3 – 6. Rhoddwyd perfformiad ysblennydd gan Flynyddoedd 1 a 2 gyda'r sioe 'Annest yr Angel'. Roedd y Meithrin a'r Derbyn yn wych yn perfformio 'Sach Sion Corn'.

Diolch enfawr i bob aelod o'r staff a'r plant am baratoi sioeau ardderchog i bawb i fwynhau.

Pob lwc i gôr yr ysgol sydd wedi bod yn gweithio'n galed i ddiddanu'r gynulleidfa yn Ffair Nadolig yr ysgol ar Nos Wener 14eg o Ragfyr. Diolch anferthol i Mrs Parry a Miss Lotwick am yr holl ymarferion yn ystod eu hamserau cinio.

Dyma neges gan y Cyngor Eco: Mae'r Cynllyn Ail-gylchu Cerdiau Nadolig blynyddol yn dechrau unwaith eto yn Marks and Spencer ym mis Ionawr 2013. Mae'n gynllun gwahanol i'r rhan fwyaf o gynlluniau ail-gylchu oherwydd mae'n cefnogi'r Woodland Trust gan dalu am filoedd o goed ychwanegol i gael eu plannu yn y D.U bob blwyddyn. Ond cofiwch gallwch hefyd ail-gylchu eich cerdiau gan ddefnyddio cynllun ail-gylchu Casnewydd.

# Croeso

Croeso i fyd hudolus Ysgol Gymraeg Casnewydd ac i'n **rhifyn cyntaf** o 'Clecs Casnewydd'. Rydyn ni wedi cael llawer o hwyl yn cynllunio'r papur newydd arbennig yma i chi ei fwynhau. Diolch yn fawr i'r holl blant sydd wedi helpu crynhoi'r gwaith er mwyn cynhyrchu'r papur ac i'r CRhA am eu rhodd enfawr o argraffu'r papur. Llongyfarchiadau i Rhys Wilkins-Jones ym Mlwyddyn 4 ac i Mali Edwards ym Mlwyddyn 5 am ennill y gystadleuaeth ac enwi'r papur.

Mae yna rhai wynebau newydd yn yr ysgol eleni. Hoffen groesawi y plant newydd i'r Meithrin sy'n ymgartrefi i fywyd ysgol. "I like coming to school because it's fun." meddai Rory. "I like Miss Williams and Mrs Morgan because they are nice and give me stickers" ychwanegodd Mia.

Croeso cynnes hefyd i'n haelodau newydd o staff, Miss Williams, Miss Davies a Miss Jones sydd yn edrych fel eu bod nhw'n mwynhau bywyd yn Ysgol Gymraeg Casnewydd, "Rydw i'n mwynhau fy amser yn Ysgol Gymraeg Casnewydd hyd yn hyn", meddai Miss Jones, "mae'r staff a'r plant yn cyd-weithio'n dda ac yn gwneud yr ysgol yn lle hapus i weithio."

Gobeithio y gwnewch fwynhau darllen ein papur newydd! Nadolig Llawen a chofiwch bydd y tymor newydd yn ail ddechrau ar y 7fed Ionawr 2013! Dewch gyda ni i weld bwrlwm ein gwaith yn yr ysgol yn ystod y tymor hwn!!

Oddi wrth y tîm golygu:
Golygwyr y rhifyn yma:
Iestyn Bryant a Ellie Robinson 6a
Abigail Corten a Elizabeth Schaufel 6b
Niamh Ovey a Rhys Jones 6c

## Gwersi yn dechrau â BANG!

Meithrin
Mae plant y Meithrin wedi mwynhau dysgu am Guto Ffowc. Wrth ymuno gyda Blwyddyn 1 i ddathlu'r diwrnod gwison nhw ddillad cynnes i wylio'r tân gwyllt. Creuwyd gwreichion bwytadwy, siocled poeth ac afalau taffi. "It was amazing! I loved it," meddai Tegan, "and it was fun making rockets in class too."

## Ysgol Jiwrasig!

Derbyn
Mae plant y Derbyn wedi cael amser diddorol wrth ddysgu am ddeinosoriaid a'r gofod! Cafon nhw bicnic penigamp yn y gofod!! "I enjoyed because there were aliens and they were green and gloopy" dywedodd Hannah. Byddwch yn wyliadwrus o'r deinosoriaid sydd yn cuddio o amgylch yr ysgol. "We saw a dinosaur with sharp teeth like mine!"

## Tegantastig!

Blwyddyn 1
Yn ogystal â mwynhau noson Tân gwyllt gyda phlant y Meithrin, mae plant Blwyddyn 1 wedi bod yn brysur yn dysgu am deganau. I ddechrau'r prosiect, fe 'ymwelodd' y plant â ffatri deganau yn y dosbarth er mwyn deall sut y mae teganau yn cael eu creu. Gofynnon ni i'r plant am beth y dysgon nhw "Mae Slinky angen disgyrchiant i fynd lawr grisiau" meddai Taylor. Eu hoff deganau oedd "balŵns achos mae nhw'n gwneud sŵn doniol wrth hedfan" meddai Taiya.

# Celf Cwl!

Blwyddyn 2
Mae Blwyddyn 2 wedi cael tymor diddorol gan ddysgu am Gasnewydd yn eu prosiect 'Ein Byd Rhyfeddol'. "Rydyn ni wedi dysgu am bethau yng Nghasnewydd. Rydw i wedi mwynhau gwneud lluniau o bethau fel y castell a'r bont trawsgludo ar y cyfrifiadur" meddai Damari.

Mae nhw wedi astudio gwaith gwahanol artisitiaid yn ystod y tymor, gan gynnwys Kevin Burgess. "Rydw i'n hoffi Kevin Burgess oherwydd mae ei luniau'n hyfryd." meddai Geraint. Mae nhw wedi efelychu steil Kevin Burgess wrth fraslunio eglwysi yng Nghasnewydd. Yn dydyn nhw'n edrych yn wych?!

# Ymosodiad y Rhufeiniaid!

Blwyddyn 3
Mae Blwyddyn 3 wedi bod yn brysur dros y tymor diwethaf gan weithio ar eu gardd Rhufeinig. Mae nhw wedi bod yn ychwanegu amrywiaeth o berlysiau a mosaic yn union fel roedd y Rhufeiniaid arfer eu gwneud. Oeddech chi'n gwybod bod y Rhufeiniaid yn tyfu perlysiau yn eu gerddi er mwyn arbed annwyd?! "Aethon ni i'r ardd am wers Mathemateg. Roedd rhaid mesur pethau fel y mainc. Roedd e'n hwyl. Rydw i'n mwynhau bod tu allan." meddai Lauren.

# Nadroedd Nerthol!

Blwyddyn 4
Mae Blwyddyn 4 wedi mwynhau dau ymweliad ysgol yn barod! Roedd y cyntaf i Dŷ Dredegar ar ddiwrnod Eco. Dywedodd llawer mae'r neidr oedd eu hoff anifail oherwydd ei fod yn lliwgar ac yn llithrig, er fod y tylluanod hefyd yn boblogaidd gan eu bod yn gyfeillgar ac yn fflwfflyd. Cafodd yr athrawon ddiwrnod o hwyl hefyd! "Fy hoff ran o'r diwrnod oedd yr anifeiiiaid oherwydd roeddwn i'n cael eu dal," meddai Miss Davies, ac ychwanegodd ei bod wedi dysgu nad oedd pob anifail mor annwyl â hynny! Yn ogystal, aethon nhw i Wastesavers i ddysgu am gynllun ail-gylchu Casnewydd. Roedd Tia Morgan wedi ysgrifennu erthygl papur newydd gwych am yr ymweliad.

# Blodau Bendigedig

Blwyddyn 5
Ym Mlwyddyn 5 rydyn ni wedi plannu planhigion a oedd yng ngerddi adeg Oes Victoria. Aethon ni i Barc Belle Vue i weld Gardd Oes Victoria go iawn. Rydyn ni wedi bod yn mesur maint yr ardd a'r coed gyda olwyn trwndl. Diolch i'r bobl arbennig sydd wedi helpu creu ein gardd Oes Victoria hyfryd.

# Palu Penigamp!

Blwyddyn 6
Mae Blwyddyn 6 wedi bod yn hynod o brysur y tymor hwn gan weithio gyda Mr Comfort a Miss Davies. Rydyn ni wedi casglu'r tomatos olaf, compostio a wedi paratoi'r ardd am y gwanwyn. Roedd hi'n werth yr holl waith caled am i ni ennill y wobr gyntaf am yr ardd lysiau orau a'r drydydd wobr am yr ardd natur yng nghystadleuaeth 'Newport in Bloom' 2012.

Diolch i bawb am gasglu tocynnau 'Morrison's let's grow' i'n hysgol. Roedd yr offer newydd yn ddefnyddiol dros ben!

# Chwareon Chwareus

# Casnewydd Campus

Mae hi wedi bod yn dymor prysur i'n timau chwaraeon! Cystadlon ni yn nhwrnament Pêl rwyd yr Urdd yn Ysgol Cwm-Rhymni. Daethon ni'n drydydd yn ein grwp a sgorio 13 pwynt. Er doedden ni ddim wedi ennill y tro hwn, fe wnaethon ni fwynhau'r twrnament. Byddwn yn parhau i ymarfer yn galed a gobeithio gallwn ennill dros ein hysgol y tro nesaf!
**Diolch enfawr i Miss Davies a Mr Taylor am eu holl gwaith yn ein hyfforddi.**

Llongyfarchiadau mawr i'r tîm gymnasteg a ddaeth yn gyntaf yng nghystadleuaeth yr Urdd yn ddiweddar yng Nghwm-Rhymni. Ymlaen yn awr i Aberystwyth! Llongyfarchiadau hefyd i Anais Henson, Mia Allen ac Evie Hond a ddaeth yn gyntaf yn y gystadleuaeth triawd gymnasteg. Mae'r timoedd pêl-droed a rygbi hefyd wedi bod yn llwyddiannus y tymor hwn. Aeth y tîm pêl-droed i'r ffatri bêl-droed ble enillon nhw yn erbyn Ysgol Gymraeg Cwmbran 18-2 mewn gêm wych o bêl-droed.

Llongyfarchiadau i'r tîm rygbi a enillodd dau dwrnament y tymor hwn. Roedd y cyntaf ym Mharc Tredegar ble enillon ni yn erbyn pedwar tîm arall i gyrraedd y gêm derfynol yn erbyn Marshfield. Enillon ni 1-0 gan ennill Tarian yr Hydref. Roedd yr ail dwrnament wedi'i drefnu gan yr Urdd yng Nghwm-Rhymni lle curo'n ni Santes Helen o 10-0. Fe sgoriodd Luca Hoole a Steffan Owen cais yr un.

Gan ei bod yn dymor o roi, rydyn ni wedi codi arian at nifer o elusennau. Dathlodd Cyfnod Allweddol 2 ddiwrnod Roald Dahl yn mis Medi gan wisgo fel un o'i gymeriadau. Fe godon ni £130.30 i elusen Roald Dahl's Marvellous Children. Fe wisgon ni smotiau ar ddiwrnod Plant mewn Angen. Fe godon ni £319.12!! Da iawn wir i ni a diolch i chi am eich cefnogaeth!

Diolch unwaith eto i'r CRhA am drefnu y Ffair Nadolig a'r gweithgareddau amrywiol yn ystod y tymor. Os oes gan unrhywun ddiddordeb i fod yn aelod o'r PTA mae yna ffurflenni cofrestri ar gael yn y swyddfa.